SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

The Rt Hon Suella Braverman MP
Home Secretary
Home Office
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Ein Cyf / Our Ref: AD/HW/2331

18 Hydref/ October 2023

Annwyl Ysgrifennydd Cartref,

**Hil a Phlismona – Arolwg anghyfartaledd hil mewn gwneud penderfyniadau yn yr heddlu a chyfiawnder troseddol.**

Yn unol â'r statud, ysgrifennaf atoch gyda fy sylwadau ar Arolwg Arolygaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) ar anghyfartaledd hil mewn gwneud penderfyniadau yn yr heddlu a chyfiawnder troseddol.

Dyma ail adroddiad adolygiadau thematig yr Arolygaeth ar hil a phlismona a argymhellwyd gan *Adroddiad Macpherson: Dwy flynedd ar hugain wedyn* y Pwyllgor Materion Cartref yn 2021. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar anghyfartaledd hil mewn gwneud penderfyniadau yn yr heddlu a chyfiawnder troseddol.

Rwyf yn cydnabod ac yn ategu barn yr Arolygaeth fod Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yn chwarae rôl allweddol wrth lywodraethu a chraffu anghyfartaledd mewn heddluoedd yn gyffredinol. Mae'r Prif Gwnstabl a minnau wedi ymrwymo sicrhau bod cydraddoldeb hiliol yn parhau'n flaenoriaeth yng Ngogledd Cymru fel y gwelir o fewn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd. Er mwyn cynyddu llywodraethu a chraffu anghyfartaledd o fewn y ddalfa, rwyf yn trefnu Panel Craffu Dalfeydd Annibynnol a fydd yn edrych dros anghyfartaledd yn chwarterol.

Mae'r Arolygaeth wedi nodi pedwar argymhelliad ar gyfer Prif Gwnstabliaid. Mae'r cyntaf yn gofyn i

Dear Home Secretary,

**Race and Policing - An inspection of race disparity in police criminal justice decision-making.**

As required by statue, I am writing to you with my comments on His Majesty's Inspectorate of Constabulary, Fire and Rescue Service (HMICFRS) Inspection race disparity in police criminal justice decision-making.

This is the second report of the Inspectorate's thematic reviews of race and policing which were recommended by the Home Affairs Committee's *Macpherson Report: Twenty-Two Years On* in 2021. This report focusses on race disparity in police criminal justice decision-making.

I acknowledge and support the Inspectorates view that Police and Crime Commissioners play an important role in the overall governance and scrutiny of disparity in forces. The Chief Constable and I are committed to ensure that race equality continues to be a priority in North Wales as demonstrated within my Police and Crime Plan. To increase the governance and scrutiny of disparity within the custody setting, I am arranging an Independent Custody Scrutiny Panel which will review disproportionality on a quarterly basis.

The Inspectorate have identified four recommendations for Chief Constables. The first

Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn / Tel: 01492 805486
Ebost / Email: OPCC@nthwales.pnn.police.uk
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffacs / Fax: 01492 805489

heddluoedd gynnal dadansoddiad cynhwysfawr o anghyfartaledd hil mewn gwneud penderfyniadau yn yr heddlu a chyfiawnder troseddol. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn creu Adroddiad Monitro Allanol sy'n cael ei lywodraethu drwy Fwrdd Strategol y Gymraeg, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar feysydd penodol anghyfartaledd posibl mewn cyflawni gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad sy'n amlygu anghyfartaledd penodol o ran y boblogaeth sy'n byw yma. Rwyf yn fodlon fod yr Heddlu yn cynnal dadansoddiad cynhwysfawr o anghyfartaledd hil. Fe wnaf barhau monitro'r dadansoddiad parhaus hwn.

requests that forces carry out comprehensive analysis of race disparity in police criminal justice decision-making. North Wales Police produce an annual External Monitoring Report which is governed through the Strategic Welsh Language, Equality, Diversity and Inclusion Board. This document focusses on key areas of potential disproportionality in service delivery which includes analysis that highlights specific disproportionality against resident population. I am content that the Force are carrying out comprehensive analysis of race disparity and I will continue to monitor this ongoing analysis.

Mae'r adroddiad wedi argymell y dylai gwybodaeth o becyn cymorth anghyfartaledd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid gael ei chynnwys yn nadansoddiad yr Heddlu o anghyfartaledd yn yr heddlu a chyfiawnder troseddol. Rwyf yn hyderus fod gwaith ar y gweill er mwyn cwblhau'r argymhelliad hwn. Fe wnaf fonitro'r cynnydd o fewn fy Mwrdd Gweithredol Strategol lle rwyf yn dwyn y Prif Gwnstabl yn atebol.

The report has recommended that information from the Youth Justice Board’s disproportionality toolkit should be included in the Force’s analysis of police criminal justice disparity. I am assured that work is underway to complete this recommendation and I will monitor the progress within my Strategic Executive Board where I hold the Chief Constable to account.

Mae'r trydydd argymhelliad yn gofyn i heddluoedd sicrhau fod craffu anghyfartaledd mewn heddluoedd a chyfiawnder troseddol yn cynnwys cynrychiolwyr o gymunedau lleol, comisiynwyr heddlu a throsedd ac asiantaethau eraill. Mae'r Heddlu wedi sefydlu strwythur ffurfiol lle mae aelodau o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol, cynrychiolwyr o'm swyddfa i ac asiantaethau eraill yn mynd i fforymau er mwyn trafod a chraffu cyfarfyddiadau allanol hefo'r cyhoedd. Mae'r fforymau hyn ar hyn o bryd yn edrych ar stopio a chwilio camerâu corff, datrysiadau tu allan i lysoedd a throseddau casineb. Rwyf yn fodlon fod gan yr Heddlu fesurau digonol mewn lle er mwyn sicrhau fod anghyfartaledd yn yr heddlu a chyfiawnder troseddol yn cael eu craffu'n annibynnol.

The third recommendation requests that forces ensure that the scrutiny of police and criminal justice disparity includes representatives of the local communities, police and crime commissioners and other agencies. The Force have established a formalised structure where members of the Independent Advisory Group, representatives from my office and other agencies attend forums to discuss and scrutinise external public encounters. These forums currently review body worn stop and search, out of court disposals and hate crime. I am satisfied that the Force have sufficient measures in place to ensure that there is independent scrutiny of police criminal justice disparity.

Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn / Tel: **01492 805486**
Ebost / Email: **OPCC@nthwales.pnn.police.uk**
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffacs / Fax: **01492 805489**

Yn olaf, mae'r Arolygaeth wedi gofyn i holl wybodaeth am anghyfartaledd yn yr heddlu a chyfiawnder troseddol gael ei gyhoeddi ar wefan yr Heddlu. Mae Adroddiad Monitro Allanol Heddlu Gogledd Cymru, sy'n canolbwyntio ar feysydd anghyfartaledd posibl mewn cyflawni gwasanaeth, yn cael ei gyhoeddi ar wefan allanol yr Heddlu ac ar gael i bawb. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cyflawni gwasanaeth stopio a chwilio, defnyddio grym, dalfeydd, cwynion, datrysiadau tu allan i lysoedd a throseddau casineb.

Finally, the Inspectorate have requested that all information about police criminal justice disparity is published on the Force's website. North Wales Police's External Monitoring Report which focusses on areas of potential disproportionality in service delivery is published on the Force's external website and available to all. This report includes service delivery of stop and search, use of force, custody, complaints, out of court disposal and hate crime.

Gwnaf barhau i fonitro cynnydd yr Heddlu wrth gwblhau'r argymhellion a amlinellir uchod fel rhan o'm craffu parhaus yn fy Mwrdd Gweithredol Strategol, lle rwyf yn dwyn y Prif Gwnstabl yn atebol.

I will continue to monitor the Force's progress in completing the recommendations outlined above as part of my ongoing scrutiny at my Strategic Executive Board, where I hold the Chief Constable to account.

Yn gywir

Yours sincerely

Andy Dunbobbin
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru /North Wales Police and Crime Commissioner